# SL(5)511 - Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Dylid darllen Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y Rheoliadau”) ar y cyd â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (rhif 2) 2020.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, sy’n gwneud darpariaeth ynghylch arfer gan asiantaethau mabwysiadu (awdurdodau lleol a chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig) eu swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 drwy:

- Roi Rhan 4 newydd yn lle'r un bresennol (Dyletswyddau Asiantaethau Mabwysiadu mewn perthynas â Darpar Fabwysiadydd) sydd:
  - yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr gan asiantaethau mabwysiadu trwy gyflwyno proses dau gam newydd o fewn amser gofynnol ar gyfer yr asesiad hwnnw a'r cymeradwyo hwnnw, gyda modd estyn yr amserlen honnon o dan rai amgylchiadau. Yng Ngham 1 (y broses cyn asesu, a gyfyngir i ddau fis), cynhelir yr holl wiriadau rhagnodedig, gan gynnwys cofnodion troseddol a gwiriadau iechyd. Yng Ngham 2 (y penderfyniad asesu, a gyfyngir i bedwar mis), mae'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu ynghylch addasrwydd y darpar fabwysiadydd;
  - yn cyflwyno proses gyflym i ganiatáu i rai mabwysiadwyr blaenorol neu rieni maeth blaenorol fynd yn syth i broses asesu Cam 2.
- Mewnosod gofyniad ar asiantaethau mabwysiadu i atgyfeirio plentyn i Gofrestr Fabwysiadu Cymru cyn pen mis o'r dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth fabwysiadu i roi'r plentyn i'w fabwysiadu, ac atgyfeirio darpar fabwysiadydd i'r Gofrestr Fabwysiadu o fewn mis i'r dyddiad y penderfynodd yr asiantaeth fod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.
- Yn egluro bod y gofyniad ar asiantaeth fabwysiadu i ofyn i swyddog achos teulu Cymru neu swyddog CAFCASS fod yn dyst wrth i riant neu warcheidwad gydsynio i blentyn yn eu gofal gael i leoli neu ei fabwysiadu ond yn berthnasol lle mae'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw yn Lloegr a Chymru.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu drefnu i berson awdurdodedig gael ei benodi i fod yn dyst wrth i riant neu warcheidwad gydsynio i blentyn dan eu gofal gael ei leoli neu ei fabwysiadu lle mae'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr.

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 9(1)(a), 11(2) a (3), 12(1), 45(1), 54, 83(4) a (5), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, ac adrannau 174(7) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

**Nodir un pwynt technegol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2(vi) mewn perthynas â'r offeryn hwn.**

Nid yw'n eglur pam nad yw'n ofynnol i'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 26(f) newydd (a fewnosodwyd gan reoliad 10 o'r Rheoliadau) gael ei chyflwyno i'r Panel Mabwysiadu gyda'r wybodaeth arall a nodir yn is-baragraff 30(6)(b) newydd, gan ei bod o natur debyg.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw rinweddau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae'r pwynt technegol wedi ei nodi. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru iddi fod yn ofynnol i'r wybodaeth a nodir yn y rheoliad 26(dd) newydd gael ei chyflwyno i'r panel mabwysiadu gyda'r wybodaeth arall a nodir yn y rheoliad 30(6)(b) newydd. Dylai'r cyfeiriad yn y rheoliad 30(6)(b) newydd at reoliad 26(b) i (d) fod yn gyfeiriad at reoliad 26(b) i (dd). Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ym mha fodd y gellir cywiro'r gwall teipograffyddol hwn ar y cyfle cyntaf posibl.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod.